Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Nyrsio Plas Eleri - Grŵp Gofal Dinbych Cyf**

**Cartref Gofal Plas Eleri**
**Rhyl Road**
**Dinbych**
**LL16 5SU**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

24/01/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Cartref Nyrsio Plas Eleri - Denbigh Care Group Ltd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Denbigh Care Group Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 34 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Hwn oedd arolygiad cyntaf y gwasanaeth ers i'r darparwr cofrestredig uchod gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn cael y gofal cywir ac yn y ffordd y maent am gael eu cefnogi. Mae hyn oherwydd bod anghenion gofal pob unigolyn yn hysbys cyn iddo symud i mewn i'r gwasanaeth, a bod y wybodaeth hon wedi'i chofnodi yng nghynlluniau personol yr unigolyn. Caiff y bobl a'u perthnasau eu cynnwys mewn trafodaethau am eu gofal a chaiff dewisiadau'r bobl eu parchu. Defnyddir asesiadau risg i reoli risgiau hysbys i iechyd a diogelwch y bobl. Mae'r perthnasau yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir, ac maent yn disgrifio'r gweithwyr gofal fel unigolion *"caring," "welcoming"* a'r rheolwr fel unigolyn *"approachable."* Mae'r lefelau staffio yn y cartref yn ddigonol, sy'n golygu bod y bobl yn cael eu cymorth ar yr adeg y mae ei angen arnynt. Mae'r staff yn cael hyfforddiant a sesiynau goruchwylio priodol sy'n eu cefnogi yn eu rolau. Mae'r rheolwr a'r uwch-staff yn monitro ansawdd y gofal a ddarperir ac mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn ddiogel. Mae'r amgylchedd yn lân, yn gyfforddus ac mewn cyflwr da.

## Llesiant

Mae'r gweithwyr gofal yn trin y bobl â pharch. Mae'r bobl yn cael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt, mewn ffordd urddasol, ac fel sydd orau ganddynt. Mae'r cynlluniau personol yn cofnodi sut mae pob unigolyn am gael ei gefnogi ac mae'r gweithwyr gofal yn dilyn y wybodaeth hon. Mae'r gweithwyr gofal yn treulio amser yn eistedd gyda'r bobl, gan roi sicrwydd a chysur iddynt drwy eu cyffwrdd mewn ffordd briodol, er enghraifft dal eu dwylo. Mae'r perthnasau yn teimlo bod croeso iddynt, maent yn fodlon ar y gofal y mae eu hanwyliaid yn ei gael ac yn canmol safon y gwasanaeth a ddarperir. Mae trefniadau sicrhau ansawdd effeithiol ar waith i fonitro ansawdd y gofal a ddarperir yn rheolaidd ac i gadarnhau bod y bobl (a'u perthnasau) yn fodlon ar y gwasanaeth y maent yn ei gael.

Mae trefniadau ar waith i hyrwyddo iechyd y bobl. Mae'r gweithwyr gofal yn gyfarwydd â chyflyrau meddygol y bobl, gan fod y wybodaeth hon wedi'i chofnodi yng nghynlluniau personol y bobl. Rhoddir cymorth er mwyn gwneud yn siŵr bod y bobl yn cael eu meddyginiaethau fel y'u rhagnodwyd, sy'n helpu i reoli eu cyflyrau ac yn eu helpu i gadw'n iach. Gofynnir am gyngor gan weithwyr iechyd proffesiynol pan fydd newidiadau wedi bod i iechyd y bobl, a chaiff yr arweiniad a roddir ganddynt ei gofnodi a'i ddilyn gan y gweithwyr gofal. Darperir gofal, cymorth a chyfarpar arbenigol i reoli'r risg i groen y bobl, ac i amddiffyn y croen cymaint â phosibl rhag niwed. Caiff deiet a lefelau hylif y bobl eu monitro i sicrhau bod y bobl yn bwyta ac yn yfed cystal â phosibl.

Mae'r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag niwed a chamdriniaeth. Mae systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod y gweithwyr gofal yn cael hyfforddiant ar sut i ddiogelu pobl rhag niwed. Mae'r uwch-reolwyr yn rhoi gwybod yn briodol i'r awdurdod lleol am faterion diogelu. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio materion diogelu yn y gwasanaeth yn dda.

Mae'r cartref yn gynnes, yn ddiogel ac mae digon o le. Mae'r cofnodion yn dangos bod risgiau yn yr amgylchedd i iechyd a diogelwch y bobl yn cael eu nodi a'u rheoli, ar y cyfan. Gwelsom fod y cartref yn lân ac mewn cyflwr da. Mae adroddiadau'r Unigolyn Cyfrifol yn dangos ei fod wedi nodi'r ardaloedd y mae angen eu huwchraddio, sy'n cynnwys llawr prif goridor y llawr gwaelod, a rhoddir blaenoriaeth i hyn fel rhan o waith yn y dyfodol. Bydd hyn yn sicrhau bod pob rhan o'r cartref yn ddymunol. Caiff ystafelloedd y bobl eu hunain eu personoli ag eitemau sydd o bwys iddynt, sy'n helpu'r bobl i deimlo'n gyfforddus ac yn gartrefol.

## Gofal a Chymorth

Mae trefniadau ar waith i ddeall anghenion gofal a chymorth unigol y bobl cyn i bob unigolyn ddod i fyw yn y gwasanaeth. Gwelsom fod asesiadau proffesiynol yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses sydd ar waith i benderfynu a yw'r gwasanaeth yn addas ar gyfer pob unigolyn. Mae'r rheolwr a'r uwch-staff hefyd yn cwrdd â'r unigolyn, a'r unigolion sy'n rhoi gofal iddo, i drafod eu hanghenion. O ganlyniad, mae'r rheolwr yn hyderus y gall y gwasanaeth ddarparu'r cymorth cywir i'r unigolyn.

Mae'r cynlluniau personol yn cofnodi'n fanwl pa gymorth sydd ei angen ar bob unigolyn er mwyn diwallu ei anghenion. Maent hefyd yn cofnodi dewisiadau'r bobl o ran sut yr hoffent gael eu cefnogi. Caiff yr hyn sy'n bwysig i bob unigolyn, a hanes ei fywyd cymdeithasol hefyd eu cofnodi. Mae'r wybodaeth hon yn helpu'r gweithwyr gofal i ddod i adnabod pob unigolyn ac yn helpu i sicrhau cysondeb wrth ddarparu gofal. Mae'r cynlluniau personol yn cofnodi strategaethau y gwyddys eu bod yn effeithiol wrth gefnogi'r bobl sydd weithiau'n ymateb mewn ffordd gynhyrfus, o ganlyniad i'w dementia. Caiff y cynlluniau personol eu hadolygu bob mis, neu pan fydd unrhyw newidiadau i anghenion y bobl.

Mae mesurau effeithiol ar waith i amddiffyn y bobl rhag niwed a chamdriniaeth. Mae'r gweithwyr gofal yn cael hyfforddiant ar ddiogelu, ac maent yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas ag amddiffyn pobl. Nodwyd gennym fod yr awdurdod lleol yn cael gwybod am faterion diogelu yn briodol pan fo angen. Mae gan yr Unigolyn Cyfrifol drefniadau cadarn ar waith i oruchwylio materion diogelu, a chaiff hyn ei gofnodi'n ffurfiol bob tro y bydd yr Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth.

Caiff y bobl eu cefnogi i fod mor iach â phosibl. Gwelsom fod y cynlluniau personol yn cofnodi cyflyrau meddygol y bobl a sut y cânt eu rheoli. Mae'r siartiau meddyginiaeth yn dangos bod y bobl yn cael eu meddyginiaethau fel y'u rhagnodwyd. Caiff atgyfeiriadau eu gwneud at weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol i gael cyngor pan fydd newidiadau i iechyd y bobl. Caiff yr arweiniad a ddarperir ei gofnodi yn nodiadau'r bobl. Dywedodd teuluoedd y bobl wrthym eu bod yn cael gwybod am unrhyw newidiadau i iechyd eu perthynas. Gofelir am groen y bobl a chaiff eu deiet a'u lefelau hylif eu monitro'n agos.

Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg. Mae nifer bach o weithwyr gofal sy'n gallu siarad Cymraeg â'r bobl yn y gwasanaeth y mae'n well ganddynt siarad Cymraeg. Dywedodd y rheolwr wrthym ei fod yn ceisio recriwtio mwy o siaradwyr Cymraeg a'i fod yn annog y gweithwyr gofal i ddysgu ymadroddion Cymraeg sylfaenol. Mae arwyddion dwyieithog i'w gweld ar y safle a chaiff diwylliant Cymru ei barchu fel rhan bwysig o hunaniaeth y bobl.

## Yr Amgylchedd

Caiff gofal a chymorth eu darparu mewn amgylchedd sy'n addas, yn lân ac mewn cyflwr da. Gwneir ymdrech i sicrhau bod ystafelloedd y bobl eu hunain yn teimlo mor gartrefol â phosibl, gan gynnwys lluniau mewn fframiau o'u perthnasau a llenni a deunyddiau o'u cartref. Mae hyn yn galluogi'r bobl i deimlo'n gyfforddus gan fod eitemau cyfarwydd o'u hamgylch. Dywedodd y perthnasau wrthym eu bod yn fodlon ar ystafelloedd eu hanwyliaid. Mae sawl lolfa ar gael i'r bobl dreulio amser yng nghwmni eraill. Mae ystafell fwyta, wedi'i haddurno ar ffurf caffi, lle gall y bobl fwyta eu prydau, os byddant am wneud hynny. Mae ardal awyr agored hygyrch ar gael, sy'n cynnwys mannau i'r bobl eistedd er mwyn treulio amser yn yr awyr agored pan fydd y tywydd yn addas.

Mae'r cartref yn lân ac mewn cyflwr da. Mae gwaith cynnal a chadw parhaus yn mynd rhagddo ac mae'r swyddog cynnal a chadw yn ymateb os bydd angen sylw brys ar unrhyw ardal. Mae'r Unigolyn Cyfrifol wedi nodi bod angen llawr newydd ar goridor y llawr gwaelod a rhoddodd sicrwydd i ni y byddai'r gwaith hwn yn cael ei gwblhau'n fuan.

Caiff risgiau iechyd a diogelwch eu rheoli'n briodol. Nid oeddem yn gallu mynd i mewn i'r adeilad heb ganiatâd gan y gweithwyr gofal i ni fynd i mewn. Felly, ni all pobl gerdded i mewn i'r adeilad na'i adael heb i'r gweithwyr gofal fod yn ymwybodol o hynny. Mae'r trefniant hwn yn cadw'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn ddiogel. Mae'r trefniadau sydd ar waith i storio meddyginiaethau, cynhyrchion glanhau a chynhyrchion golchi dillad yn ddiogel. Dyfarnwyd sgôr o bump i'r gegin (da iawn) yn dilyn arolygiad gan yr awdurdod lleol yn ddiweddar, sef y sgôr uchaf bosibl. Mae systemau diogelwch tân ar waith i sicrhau y caiff yr holl ragofalon priodol eu cymryd os bydd tân. Mae cynlluniau personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng ar waith, sy'n cofnodi'r cymorth sydd ei angen ar bob unigolyn i adael yr adeilad mewn argyfwng. Caiff gwiriadau iechyd a diogelwch eraill, fel gwasanaethu cyfarpar codi, profi cyfarpar trydanol, gwasanaethu dyfeisiau nwy a phrofi ansawdd dŵr, eu cynnal yn ôl yr angen.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae prosesau ar waith i gadarnhau bod y gweithwyr gofal yn addas i weithio yn y gwasanaeth cyn iddynt gael eu cyflogi. Gwelsom fod y gweithwyr gofal yn cwblhau cyfnod sefydlu a hyfforddiant gorfodol pan fyddant yn dechrau gweithio yn y gwasanaeth. Caiff sesiynau goruchwylio un i un eu darparu, ac mae'r rheolwr hefyd yn cael cymorth goruchwylio gan yr Unigolyn Cyfrifol. Mae'r gweithwyr gofal yn cael yr hyfforddiant priodol mewn perthynas â'u gwaith ac maent wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, sef rheoleiddiwr y gweithlu.

Mae'r rotas staff y dangos bod y lefelau staffio yn adlewyrchu anghenion a nifer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Gwelsom fod y gweithwyr gofal yn ymateb i'r clychau galw mewn modd amserol a bod y bobl yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt pan fo'i angen. Caiff staff ychwanegol eu cyflogi i weithio yn y gegin, i olchi dillad ac i ymgymryd â thasgau cadw tŷ. Mae cydgysylltydd gweithgareddau ar gael ar y rhan fwyaf o ddiwrnodau. Mae hyn yn golygu y gall y gweithwyr gofal ganolbwyntio ar gefnogi'r bobl.

Mae trefniadau strwythuredig ar waith i fonitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn rheolaidd. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith sy'n helpu i sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn hwylus, yn unol â'r datganiad o ddiben. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cynnal ymweliadau ffurfiol â'r cartref yn rheolaidd, er mwyn goruchwylio'r gwasanaeth a ddarperir. Dywedodd y perthnasau wrthym fod yr Unigolyn Cyfrifol yn hawdd mynd ato. Mae adroddiadau yn dangos bod yr Unigolyn Cyfrifol yn cwrdd â'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'u perthnasau'n rheolaidd. Mae'n aml yn cwrdd â'r tîm rheoli ac amrywiaeth o wahanol aelodau o'r staff wyneb yn wyneb er mwyn trafod y gwasanaeth a ddarperir. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn edrych ar yr amgylchedd yn ystod ei ymweliadau ac yn nodi unrhyw ardaloedd y mae angen sylw arnynt. Caiff y cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r ardaloedd hyn ei drafod yn ystod ymweliad nesaf yr Unigolyn Cyfrifol. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn dangos arweinyddiaeth gref ar lefel darparwr y gwasanaeth, ac mae'n llywio datblygiadau parhaus yn y gwasanaeth.

Gall y bobl godi unrhyw faterion â'r rheolwr, neu'r Unigolyn Cyfrifol, ac maent yn teimlo'n hyderus y gwrandewir ar eu safbwyntiau. Mae polisi cwynion ar gael sy'n esbonio'r ymateb y gall y bobl ei ddisgwyl os bydd angen iddynt wneud cwyn ffurfiol. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r adborth y mae'r gwasanaeth yn ei gael a chaiff ei fonitro'n rheolaidd.

Mae darparwr y gwasanaeth yn goruchwylio trefniadau ariannol y gwasanaeth a buddsoddiadau ynddo yn dda er mwyn sicrhau ei fod yn gynaliadwy yn ariannol. Gwelsom fod systemau ar waith i sicrhau y caiff prosesau cynllunio ariannol, prosesau ar gyfer monitro'r gyllideb a phrosesau rheolaeth ariannol eu cynnal yn effeithiol. Mae hyn yn darparu sefydlogrwydd ariannol da yn y gwasanaeth.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 04/03/2024